

Ein Llais

Mae gennym ni sawl enw:
We have several names:

'Criw'r Gromlech',
'The Ponty Panthers',
'Dawnsyr Afon Dyfi',
'The Gwent Giants',
'Mellt Maenclochog',
'The Cardiff Mixing Pot'
a 'Brain Bendigedig Betws Gwerfyl Goch'.

We are the musty smell of rooms,
of damp wood and rotting leaves.
Ni yw cri'r gwyfanod a chyffro'r Wal Goch.
We are 'un teulu mawr';
ac ni yw sw'n y tractors yn suo fel gwenyn yn y caeau gwaith.
Wildlife, pondlife,
Ni yw'r adeiladau newydd a'r pocedi gweigion;
mossy slimy rocks and information boards.
Ni yw'r rhai sy'n hapus ac yn drist.
We are made of iron, of meandering rivers
ac ni yw waliau Senedd Glyndŵr,
foxes, badgers, owls, woodpeckers
ac ni yw'r Gwmrâg sy'n ein gludo at ein gilydd fel mêl gwyllt.
We are the tasty, scrumptious crumbly Welsh cakes.
Ni yw'r cychod sy'n ein cario i'r ynnysoedd nesaf.
We are fast readers,
weird singers, friendly dancers;
ni yw'r cerrig mân a'r creigiau moel,
and we pride ourselves on kindness.

And we know what it is to feel 'hiraeth'
Ac rydan ni'n gwybod fod 'na bobol yng Nghymru yn llwgu,
And we know what it's like to have mixed emotions,
fod capeli yn arogl fel hen lyfrau,
a dillad neiniau a fferins a gweddïau.
When I speak Welsh, I can taste my tongue;
bod hiliaeth yn staen ar y galon.
Our mountains stand ragged and rocky;
bod Cymreictod yn brofiad sur-felys fel blas mwyar duon ar dafod.
We speak Arabic, Tamil, Urdu, Afrikaans,
ac mai bara brith yw bara'r nefoedd
am ei fod o'n arogl'n dywyll ac yn dyner fel tŷ Mam-gu;
Welsh, English, Turkish, Telegu, Somali;
a bod ynom y ddawn i fod yn genedl.

A'r cyfan rydym ni eisiau,
and all we want,
yw bod yn ffrind i wledydd eraill;
to keep the air clean so we can breathe;
a llai o dywod rhwng ein brechdanau;
a trampoline in the chimney so we can reach the clouds
a bod neb yn trashio parciau plant yfory;
for our girls to have the same opportunities as our boys;
ac rydym ni'n mynnu
yr hawl i gael byw yn ein cymunedau;
robot butlers and the Welsh flag on the moon!
Rydym eisiau gwyrddni, ag awyr iach
ac arogl dom!
Our unique voices were made to be heard.
Rydym ni moyn cymryd pleser yn ein gwaith,
yn gwmws fel y gwna Mam-gu
wrth iddi weithio tarten rhiwbob.

We want to set an example for the rest of the world.